Law Commission

Reforming the law


# Troseddau Lladdiad

## Crynodeb o’r Papur Ymgynghori









# Ymateb i'n crynodeb

| | |
|---|---|
| **Pwy ydym ni?** | Mae Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn gorff annibynnol a sefydlwyd drwy statud i wneud argymhellion i Lywodraeth y DU ynglŷn â diwygio'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr. |
| **Beth yw bwriad y papur?** | Mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnal adolygiad o'r gyfraith lladdiadau ac yn ystyried yr angen am ddiwygio gyda golwg ar wella ei thegwch, ei heffeithiolrwydd, ei chysondeb a'i chydlyniad.<br><br>Mae ein hadolygiad wedi'i rannu'n dair elfen: troseddau lladdiad, amddiffyniadau (gan gynnwys amddiffyniadau rhannol i lofruddiaeth ac amddiffyniadau llawn sy'n berthnasol i laddiadau) a dedfrydu. Mae'r papur ymgynghori hwn yn ystyried y troseddau lladdiad, yn enwedig y troseddau llofruddiaeth a dynladdiad. |
| **Pam rydym yn ymgynghori?** | Rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylid diwygio'r gyfraith. Mae ymgynghori yn elfen hollbwysig o'n gwaith. Rydym am i unrhyw argymhellion a wnawn yn y pen draw gael sylfaen dystiolaeth mor gryf â phosib. |
| **Ble mae'r papur ymgynghori llawn?** | Mae'r papur ymgynghori llawn ar gael ar ein gwefan, ynghyd â dogfennau eraill sy'n berthnasol i'r prosiect: https://lawcom.gov.uk/project/law-of-homicide/#4-Documents |
| **Gan bwy yr hoffem glywed?** | Hoffem glywed gan gynifer o randdeiliaid â phosib.<br><br>Mae hyn yn cynnwys gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, barnwyr, sefydliadau'r sector gwirfoddol, sefydliadau gorfodi'r gyfraith, troseddwyr a gafwyd yn euog o droseddau lladdiad, staff carchardai, academyddion ac ymchwilwyr, pobl mewn profedigaeth oherwydd lladdiad ac unrhyw un arall y mae cyfraith lladdiadau yn effeithio arnynt. Er ein bod yn awyddus i glywed gan unigolion, ni allwn ymyrryd mewn achosion unigol. |

`

| | |
|---|---|
| **Sut ydw i'n ymateb?** | Byddem yn gwerthfawrogi ymatebion i'r papur ymgynghori gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar-lein sydd ar gael yn: **https://consult.justice.gov.uk/law-commission/homicide-offences**<br>Fel arall, gallwch ymateb:<br>dros e-bost i: **homicide@lawcommission.gov.uk**<br>drwy'r post at:<br>**Homicide Team, Law Commission, 1st Floor, 52 Queen Anne's Gate, London, SW1H 9AG.**<br>(Os byddwch chi'n anfon eich sylwadau drwy'r post, byddai'n fuddiol pe gallech eu hanfon yn electronig hefyd os oes modd i chi wneud hynny.)<br>Rydym yn fodlon darparu ffurflen wedi'i hargraffu i'r rhai nad ydynt yn gallu ymateb yn electronig er mwyn iddynt allu cyflwyno ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiynau yn y crynodeb hwn. Gofynnwch am "homicide response form" gan ddefnyddio'r cyfeiriad post neu'r cyfeiriad e-bost uchod.<br>Chi sydd i benderfynu pa gwestiynau ymgynghori rydych chi'n dewis eu hateb – does dim angen ateb pob cwestiwn. |
| **Beth yw'r dyddiad cau?** | Rhaid cyflwyno ymatebion erbyn **30 Medi 2026.** |
| **Beth fydd yn digwydd nesaf?** | Byddwn hefyd yn cyhoeddi papur ymgynghori ar wahân yn ystyried diwygio amddiffyniadau rhannol i lofruddiaeth, amddiffyniadau llawn sy'n berthnasol i droseddau lladdiad a dedfrydu am lofruddiaeth. Ar ôl dadansoddi'r holl ymatebion i'r ddau bapur ymgynghori, byddwn yn cynnwys ein hargymhellion terfynol ar gyfer diwygio cyfraith lladdiadau yn yr adroddiad terfynol. Llywodraeth y DU fydd yn penderfynu a fydd yn gweithredu ar yr argymhellion.<br><br>I gael rhagor o wybodaeth am y modd y mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnal ei ymgynghoriadau, a'n polisi ar gyfrinachedd ac anhysbysrwydd ymatebion ymgyngoreion, ewch i'r papur ymgynghori llawn ar droseddau lladdiad. |

# Gwybodaeth am y crynodeb hwn

Bwriad y crynodeb hwn yw rhoi trosolwg o'r materion allweddol rydym yn eu trafod yn ein papur ymgynghori ar droseddau lladdiad. Mae'n egluro beth yw pwrpas y papur ymgynghori a'r materion rydym yn rhoi sylw iddynt.

Yn y papur ymgynghori, rydym yn nodi nifer o gwestiynau ymgynghori rydym yn gofyn am ymatebion iddynt. Rydym yn cynnwys cwestiynau'r ymgynghoriad yn y crynodeb hwn. Mae rhai cwestiynau'n nodi cynigion amodol ar gyfer diwygio'r gyfraith ac yn gofyn a ydych chi'n cytuno ai peidio. Mae eraill yn gwestiynau agored lle byddwn yn gofyn am eich barn. Dim ond ar ôl i ni dderbyn ac ystyried yr holl ymatebion i'r papur ymgynghori y byddwn yn dod i'n casgliadau terfynol ac yn gwneud argymhellion ar gyfer diwygio. Ein nod yw sicrhau bod unrhyw un yn gallu darllen y crynodeb hwn ac ymdrin â'r materion allweddol rydym yn rhoi sylw iddynt.

Os oes gan unigolion neu sefydliadau ddiddordeb neu arbenigedd penodol mewn unrhyw un neu bob un o'r meysydd rydym yn eu harchwilio, byddem yn eu hannog i ddarllen y papur ymgynghori. Mae'n cynnwys trafodaeth fanylach ar y materion.



# Geirfa

Isod ceir diffiniadau o rai termau allweddol rydym yn eu defnyddio drwy gydol y crynodeb hwn. Mae geirfa fwy cynhwysfawr ar gael yn y papur ymgynghori.

Rydym yn cydnabod y gall y geiriau a ddefnyddir i ddisgrifio llofruddiaeth, lladdiad a marwolaeth yn fwy cyffredinol fod yn emosiynol. Dewiswyd y derminoleg a ddefnyddir drwy gydol y crynodeb hwn a'r papur ymgynghori i adlewyrchu a chyd-fynd â'r broses gyfreithiol.

**Beiusrwydd:** i ba raddau mae rhywun ar fai am ei ymddygiad. Gall beiusrwydd ddibynnu ar amryw o ffactorau, gan gynnwys cyfrifoldeb cyffredinol yr unigolyn yn yr amgylchiadau penodol ac elfen bai'r unigolyn ar adeg cyflawni'r drosedd. Mae cyfraith trosedd yn adlewyrchu lefelau beiusrwydd drwy wahanol droseddau, amddiffyniadau a dedfrydau.

**Cyfraith lladdiadau:** term torfol am y troseddau lladdiad, amddiffyniadau i droseddau lladdiad, a dedfrydu am droseddau lladdiad.

**Difrifoldeb:** mae difrifoldeb yn gyfuniad o'r niwed a achosir gan ymddygiad, beiusrwydd y troseddwr, ac unrhyw ffactorau cymdeithasol ehangach eraill sy'n effeithio ar sut rydym yn ymateb i'r ymddygiad troseddol.

**Diffynnydd neu "D":** rhywun sydd wedi'i gyhuddo o drosedd ond nad yw wedi'i gael yn euog. Mae cael ei gyhuddo o drosedd yn golygu bod y person yn cael ei gyhuddo'n ffurfiol o'r drosedd a gall yr achos llys ddechrau.

**Dioddefwr neu "V":** rhywun sydd wedi'i ladd pan fo achos ei farwolaeth yn gyfystyr â throsedd. Mae teulu a ffrindiau'r person ymadawedig hefyd yn ddioddefwyr yn sgil y lladdiad.

**Elfen bai:** mae hyn yn cyfeirio at y cyflwr meddwl sydd ei angen er mwyn i'r diffynnydd fod yn euog o drosedd. Mae gwahanol elfennau bai yn cynnwys, o'r beiusrwydd uchaf i'r beiusrwydd isaf: bwriad, byrbwylltra ac esgeuluster.

**Person ymadawedig:** rhywun sydd wedi marw pan nad yw'n glir bod achos ei farwolaeth yn gyfystyr â throsedd.

**Rheithfarn:** penderfyniad a wneir gan reithgor ar ddiwedd erlyniad ynghylch a yw'r diffynnydd yn euog neu'n ddieuog o'r drosedd a gyhuddir gan yr erlyniad.

**Troseddwr:** rhywun sydd wedi'i gael yn euog o drosedd. Mae euogfarn yn ganfyddiad ffurfiol a wneir gan lys bod person sydd wedi'i gyhuddo o drosedd yn euog.

# Trosolwg o'r prosiect

Ym mis Rhagfyr 2024, gofynnodd Llywodraeth y DU i Gomisiwn y Gyfraith gynnal adolygiad o'r gyfraith sy'n ymwneud â lladdiadau. Cytunom ar Gylch Gorchwyl y prosiect. Ym mis Awst 2025, fe wnaethom gyhoeddi Galwad am Dystiolaeth lle gwnaethom wahodd tystiolaeth ar yr amrywiaeth o faterion y gallem eu hystyried yn y prosiect.

Cafodd cyfraith lladdiadau ei hadolygu hefyd gan Gomisiwn y Gyfraith ddechrau'r ganrif hon. Yn gyntaf, fe wnaethom argymell diwygio amddiffyniadau rhannol i lofruddiaeth yn 2004. Yn ail, fe wnaethom argymell diwygio'r gyfraith lladdiadau yn 2006 ("Adroddiad 2006"). Cafodd ein hargymhellion yn 2004 ar ddiwygio amddiffyniadau rhannol i lofruddiaeth eu gweithredu gan fwyaf gan Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009. Penderfynodd y Llywodraeth beidio â gweithredu ein hargymhellion yn 2006 ar droseddau lladdiad. Mae llawer o'r problemau gyda'r troseddau lladdiad a oedd yn bodoli adeg Adroddiad 2006 yn parhau hyd heddiw, ochr yn ochr â rhai problemau newydd sydd wedi dod i'r amlwg ers hynny. Yn ein prosiect presennol, rydym yn edrych ar yr holl faterion perthnasol o'r newydd, gan ddefnyddio ein gwaith cynharach fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth.

# Egwyddorion diwygio'r gyfraith



Credwn y dylai'r pum egwyddor allweddol a ganlyn lywio ein hadolygiad o gyfraith lladdiadau:

## Cydlyniaeth

Dylai cyfraith lladdiadau adlewyrchu rhesymeg glir a rhesymegol, gan egluro sut mae ymddygiad gwahanol sy'n arwain at farwolaeth yn cael ei droseddoli.

## Cysondeb

Dylai cyfraith lladdiadau hwyluso defnydd cyson o'r gyfraith.

## Eglurder

Dylai cyfraith lladdiadau fod yn ddealladwy ac yn hygyrch i bawb y mae'n effeithio arnynt.

## Tegwch a chymesuredd

Dylai cyfraith lladdiadau adlewyrchu'r niwed a achosir gan ymddygiad a beiusrwydd y troseddwr. Mae hyn yn cynnwys:

**Labelu teg:** mae labelu teg yn sicrhau bod strwythur a labelu troseddau yn adlewyrchu'n gywir ac yn deg wahaniaethau yn natur a difrifoldeb drwgweithredu'r troseddwr. Er enghraifft, byddai'n anghywir labelu rhywun yn llofrudd os ydynt wedi cyflawni trosedd cwbl wahanol, fel lladrad, neu os ydynt wedi achosi marwolaeth rhywun ond nad ydynt yn ddigon beius i'w labelu'n llofrudd. Mae labelu teg yn bwysig i droseddwyr, dioddefwyr a'u teuluoedd, a chymdeithas yn ehangach.

**Canlyniadau cymesur:** dylai cyfraith lladdiadau ymateb mewn ffordd gymesur i ddrwgweithredu'r troseddwr. Mae hyn yn golygu y dylid cadw'r dedfrydau mwyaf llym ar gyfer y troseddwyr mwyaf beius ac na ddylid ond cael unigolion yn euog o droseddau sy'n adlewyrchu eu beiusrwydd.

**Hawliau dynol:** rhaid i gyfraith lladdiadau gydymffurfio â hawliau dynol pawb yr effeithir arnynt.

`

## Ymarferoldeb

Dylai cyfraith lladdiadau weithredu'n effeithiol yn ymarferol, gan gynnwys drwy ganiatáu ymchwiliad effeithiol i droseddau lladdiad i ganiatáu ymchwiliad effeithiol i droseddau lladdiad, sicrhau bod y diffynnydd yn cael treial teg a sicrhau bod rheithwyr yn deall y gyfraith.

Y tu allan i'r strwythur dwy haen, mae troseddau lladdiad penodol eraill rydym yn eu trafod yn y papur ymgynghori ac yn y crynodeb hwn.

# Troseddau lladdiad cyfredol

## Y strwythur dwy haen

Mae unigolyn yn cyflawni trosedd lladdiad pan fydd ei weithred neu ei anweithred anghyfreithlon yn arwain at farwolaeth person arall. Troseddau lladdiad yw'r troseddau mwyaf difrifol gan eu bod yn cynnwys y niwed mwyaf difrifol, sef colli bywyd dynol.

Yng Nghymru a Lloegr, mae dwy drosedd lladdiad gyffredinol ar hyn o bryd: llofruddiaeth a dynladdiad, sy'n cael eu diffinio mewn cyfraith gyffredin (gan lysoedd) yn hytrach nag mewn deddfwriaeth. Mae'r troseddau yn ffurfio'r hyn rydyn ni'n ei alw'n "strwythur dwy haen" troseddau lladdiad.

Llofruddiaeth yw'r drosedd lladdiad fwyaf difrifol. O dan y gyfraith bresennol, cyflawnir llofruddiaeth pan fydd person (y diffynnydd, neu'r "D") yn lladd person arall yn anghyfreithlon (y dioddefwr, neu'r "V") gyda'r bwriad naill ai o ladd neu achosi niwed corfforol difrifol ("GBH"). Niwed corfforol neu seiciatrig difrifol iawn yw niwed corfforol difrifol. Mae'n orfodol rhoi dedfryd oes am lofruddiaeth. Mae dynladdiad yn cynnwys mathau eraill o ladd anghyfreithlon sydd fel arfer yn llai beius na llofruddiaeth. Mae pedwar math o ddynladdiad ac rydym yn eu hegluro ymhellach isod yn y crynodeb hwn. Mae gan ddynladdiad ddedfryd oes ddewisol.

Nid yw **carchar am oes** yn golygu na fydd y troseddwr byth yn cael ei ryddhau o'r carchar. Mewn achosion o lofruddiaethau difrifol eithriadol, gall y barnwr roi "gorchymyn oes gyfan", felly bydd y troseddwr yn treulio gweddill ei oes yn y carchar. Yn y rhan fwyaf o achosion, fodd bynnag, bydd y barnwr yn pennu "cyfnod byrraf" (nifer lleiaf o flynyddoedd) y mae'n rhaid i'r troseddwr ei dreulio cyn y gellir ystyried ei ryddhau o'r carchar. Os caiff y troseddwr ei ryddhau ar unrhyw adeg ar ôl i'r cyfnod byrraf ddod i ben, bydd yn parhau i fod yn destun amodau penodol (sef bod ar "drwydded") am weddill ei oes. Gellir ei alw'n ôl i'r carchar os na fydd yn cydymffurfio â'r gofynion hynny.


Mae'r **ddedfryd oes orfodol** yn unigryw i lofruddiaeth. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i farnwyr ddedfrydu unrhyw un a geir yn euog o lofruddiaeth i garchar am oes. Rydym wedi cytuno â'r Llywodraeth y bydd y ddedfryd oes orfodol yn parhau i gael ei gorfodi ar gyfer y mathau mwyaf difrifol o lofruddiaeth.

Mae **dedfryd oes ddewisol** yn golygu bod gan farnwyr y pŵer i ddedfrydu rhywun i garchar am oes mewn achosion haeddiannol, ond nid yw'n orfodol iddynt wneud hynny. Yn hytrach, gall y barnwr ddewis ei ddedfrydu i ddedfryd benodol am nifer penodol o flynyddoedd.

## Strwythur newydd

Mae strwythur dwy haen llofruddiaeth a dynladdiad wedi cael ei feirniadu'n eang am fethu gwahaniaethu'n briodol rhwng yr ystod eang o ymddygiad a beiusrwydd sydd ynghlwm wrth wahanol laddiadau.

Ein casgliad amodol yw mai'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r feirniadaeth o'r strwythur dwy haen presennol fyddai cyflwyno strwythur tair haen ar gyfer y troseddau lladdiad cyffredinol.




Yn y strwythur tair haen hwn, byddai'r lladdiadau mwyaf beius ar y brig a'r lladdiadau llai beius ar y gwaelod. Byddai'r "troseddau lladdiad penodol" yn aros y tu allan i'r tair haen hyn. Credwn y byddai'r dull hwn yn gwneud cyfraith lladdiadau yn gliriach ac yn fwy cydlynol, gan hwyluso labelu tecach a dedfrydu mwy cymesur na'r hyn y mae'r strwythur dwy haen presennol yn ei gynnig.

Rydym hefyd yn dod i'r casgliad amodol y byddai strwythur sydd â mwy na thair haen yn gymhleth ac nad oes cyfiawnhad iddo. Rydym yn fodlon bod ein strwythur arfaethedig yn cydbwyso'r angen am degwch a chywirdeb ag ystyriaethau ymarferoldeb yn y ffordd orau bosib. Mae'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r Galwad am Dystiolaeth yn cefnogi strwythur tair haen yn rhoi sicrwydd i ni.

Mae canllaw gweledol i'n strwythur tair haen arfaethedig ar gael ar y dudalen nesaf.

## Troseddau lladdiad yng Nghymru a Lloegr




### Cwestiwn yr Ymgynghoriad 1. (paragraff 4.25 y papur ymgynghori)

Rydym yn gofyn am farn ymgyngoreion ar strwythur newydd ar gyfer cyfraith lladdiadau. Rydym yn gofyn cwestiynau penodol yn y papur ymgynghori ynghylch pa droseddau fyddai'n perthyn i bob haen, elfennau bai troseddau lladdiad, a gweithrediad yr amddiffyniadau rhannol. Yma rydym yn croesawu safbwyntiau sy'n canolbwyntio ar y strwythur tair haen arfaethedig ei hun.

Rydym yn cynnig yn amodol y dylai fod strwythur tair haen i droseddau lladdiad cyffredinol, i adlewyrchu gwahanol lefelau o feiusrwydd.

A yw ymgyngoreion yn cytuno?

`

# Llofruddiaeth gradd gyntaf a llofruddiaeth ail radd

Ar hyn o bryd, cyflawnir y drosedd o lofruddiaeth pan fydd person wedi lladd person arall yn anghyfreithlon naill ai gyda'r bwriad o ladd neu o achosi niwed corfforol difrifol. Bydd diffynyddion a geir yn euog o lofruddiaeth yn cael y ddedfryd oes orfodol.

Mae llawer yn beirniadu'r drosedd llofruddiaeth am fod yn rhy eang, gan ddadlau na ddylai dedfryd oes fod yn orfodol ar gyfer troseddwyr a laddodd gyda'r bwriad o achosi niwed corfforol difrifol ac na ddylid eu grwpio yn yr un categori â throseddwyr a oedd yn bwriadu lladd, sydd fel arfer yn fwy beius. Mae tystiolaeth hefyd bod y cyhoedd yn camddeall llofruddiaeth fel trosedd, oherwydd bod y gair "llofrudd" fel arfer yn cael ei gysylltu â pherson a oedd yn bwriadu lladd.

## Ein cynigion amodol

Rydym yn cynnig yn amodol y dylid disodli'r un drosedd llofruddiaeth â dwy drosedd ar wahân, sef "llofruddiaeth gradd gyntaf" a "llofruddiaeth ail radd". Llofruddiaeth gradd gyntaf fyddai haen uchaf ein strwythur arfaethedig o droseddau lladdiad, sef y math o laddiad mwyaf beius. Llofruddiaeth ail radd fyddai ar ail haen y strwythur.

Rydym yn dod i'r casgliad yn amodol y dylid cael dwy drosedd llofruddiaeth:

**Llofruddiaeth gradd gyntaf:** fe wnaeth y diffynnydd ladd gyda'r bwriad o ladd. Byddai'r drosedd hon yn golygu dedfryd oes orfodol.

**Llofruddiaeth ail radd:** fe wnaeth y diffynnydd ladd gyda'r bwriad o achosi anaf difrifol. Byddai'r drosedd hon yn golygu dedfryd oes ddewisol.

Credwn fod y term "anaf difrifol" yn fwy cywir a modern na "niwed corfforol difrifol". Mae anaf difrifol yn cynnwys anaf corfforol ac anaf seiciatrig cydnabyddedig, yn unol â'r gyfraith achosion.

Rydym yn dadlau bod tynnu llinell rhwng y ddau fath hyn o fwriad yn gwneud cyfraith lladdiadau yn decach ac yn gliriach. Credwn fod diffynnydd a oedd yn bwriadu lladd fel arfer yn fwy beius na diffynnydd a oedd yn bwriadu achosi anaf difrifol.

### Enghraifft o bob math o lofruddiaeth

Llofruddiaeth gradd gyntaf: Mae'r diffynnydd yn bwriadu lladd y dioddefwr ac yn trywanu'r dioddefwr sawl gwaith, gan achosi marwolaeth y dioddefwr.

Llofruddiaeth ail radd: Mae'r diffynnydd yn bwriadu achosi anaf difrifol i'r dioddefwr ac yn trywanu'r dioddefwr yn ei law, ond mae'r dioddefwr yn marw o ganlyniad i hynny: llofruddiaeth ail radd.

Rydym yn dadlau ei bod yn bwysig labelu'n deg bod trosedd lladd gyda'r bwriad o achosi anaf difrifol yn dal i gael ei labelu'n "llofruddiaeth" ar ryw ffurf, gan fod y niwed a fwriadwyd (anaf difrifol) yn sylweddol debyg i'r niwed a achoswyd (marwolaeth). Fodd bynnag, credwn y byddai'n annheg euogfarnu'r diffynyddion hyn o lofruddiaeth gradd gyntaf, y math mwyaf difrifol o lofruddiaeth.

Byddai ein cynigion amodol hefyd yn galluogi dedfrydu cymesur. Ni fyddai'r ddedfryd oes orfodol yn berthnasol i droseddwyr a gafwyd yn euog o lofruddiaeth ail radd; mae hyn yn sicrhau mai dim ond i'r lladdiadau mwyaf beius y mae'r ddedfryd oes orfodol yn berthnasol, hynny yw llofruddiaethau gradd gyntaf.

Bydd hyn yn helpu i gyfleu pwrpas y ddedfryd oes orfodol, gan alluogi'r cyhoedd i'w deall yn well.

O dan ein cynigion amodol, byddai'r barnwr dedfrydu yn dal i allu dedfrydu troseddwyr a gafwyd yn euog o lofruddiaeth ail radd i ddedfryd oes mewn achosion lle'r oedd y troseddwr yn bwriadu achosi anaf difrifol ond ei fod yn feius iawn. Gallai hyn fod yn briodol, er enghraifft, pe bai'r diffynnydd yn arteithio'r dioddefwr, gan fwriadu achosi anaf difrifol yn unig, ond bod y dioddefwr yn marw. Yma, gellir ystyried bod beiusrwydd y diffynnydd yn debyg yn fras i feiusrwydd troseddwr a oedd yn bwriadu lladd.

Mae manteision ymarferol hefyd i'n cynnig i rannu llofruddiaeth yn ddwy radd. O dan y gyfraith bresennol, pan fydd rheithgor yn canfod y diffynnydd yn euog o lofruddiaeth, nid ydynt yn egluro a ydynt yn credu bod y diffynnydd yn bwriadu lladd neu'n bwriadu achosi niwed corfforol difrifol. Bydd ein dwy radd arfaethedig o lofruddiaeth yn sicrhau y byddai'n gliriach o ddyfarniad y rheithgor pa fwriad yr oedd y rheithgor yn credu oedd gan y diffynnydd pan wnaeth achosi'r farwolaeth. Mae manteision pwysig i gyfathrebu o safbwynt cael dealltwriaeth gliriach o ddyfarniad y rheithgor ar gyfer y diffynnydd, teulu'r dioddefwr a chymdeithas yn ehangach.

**Cwestiwn yr Ymgynghoriad 2. (paragraff 5.62 y papur ymgynghori)**

Ein cynnig amodol yw y dylid cael trosedd o lofruddiaeth gradd gyntaf lle wnaeth y diffynnydd ladd person arall yn anghyfreithlon gyda'r bwriad o'i ladd.

A yw ymgyngoreion yn cytuno?

**Cwestiwn yr Ymgynghoriad 3. (paragraff 6.50 y papur ymgynghori)**

Ein cynnig amodol yw y dylid cael trosedd o lofruddiaeth ail radd lle wnaeth y diffynnydd ladd person arall yn anghyfreithlon gyda'r bwriad o achosi anaf difrifol. Byddai gan y drosedd hon ddedfryd fwyaf bosib o garchar am oes (dedfryd oes yn ôl disgresiwn).

A yw ymgyngoreion yn cytuno?

## Rôl amddiffyniadau rhannol

O dan y gyfraith bresennol, pan gyhuddir y diffynnydd o lofruddiaeth ond bod amddiffyniad rhannol yn berthnasol, fe'i ceir yn euog o fath o ddynladdiad a elwir yn "ddynladdiad gwirfoddol". Mewn achosion o'r fath, roedd y diffynnydd yn bwriadu lladd neu achosi niwed corfforol difrifol. Fodd bynnag, mae llwyddo mewn amddiffyniad rhannol yn golygu bod ei feiusrwydd yn llai.

Y brif sail resymegol dros yr amddiffyniadau rhannol yw sicrhau nad yw diffynyddion sydd â llai o feiusrwydd yn cael y ddedfryd oes orfodol. Y rheswm am hyn yw y byddai'n anghymesur i'r diffynyddion hynny gael dedfryd mor llym. Mae amddiffyniadau rhannol yn unigryw i lofruddiaeth, oherwydd mai llofruddiaeth yw'r unig drosedd sydd â dedfryd oes orfodol. Ar gyfer pob trosedd arall, rhoddir ystyriaeth i lai o feiusrwydd gan y diffynnydd wrth ddedfrydu (oherwydd bod y drefn ddedfrydu'n fwy hyblyg).

Yn y papur ymgynghori hwn, rydym ond yn archwilio sut y dylai'r amddiffyniadau rhannol weithredu yn y strwythur troseddau lladdiad. Byddwn yn ystyried elfennau'r amddiffyniadau rhannol presennol, ac unrhyw rai newydd posib, yn fanylach mewn papur ymgynghori yn y dyfodol.

Mae rhai'n dadlau nad yw euogfarn am ddynladdiad ar gyfer diffynyddion sydd ag amddiffyniad rhannol yn adlewyrchu difrifoldeb y troseddu'n ddigonol, gan eu bod yn dal i fwriadu lladd neu achosi niwed corfforol difrifol, er bod eu beiusrwydd wedi'i leihau. Mae beirniaid yn dadlau ei bod yn anghyson ac annheg rhoi diffynyddion sydd ag amddiffyniad rhannol yn yr un categori â diffynyddion sydd wedi cyflawni troseddau dynladdiad eraill (a elwir yn "ddynladdiad anwirfoddol"), oherwydd nad oedd y grŵp olaf o ddiffynyddion yn bwriadu lladd nac achosi niwed corfforol difrifol.

**Dyma'r amddiffyniadau rhannol presennol:**

**Colli rheolaeth:** Collodd y diffynnydd reolaeth oherwydd bod naill ai (1) y diffynnydd yn ofni trais difrifol gan y dioddefwr yn erbyn y diffynnydd neu berson arall neu (2) bod y dioddefwr wedi gwneud neu ddweud rhywbeth a oedd o natur difrifol iawn ac wedi achosi i'r diffynnydd deimlo bod cyfiawnhad dros deimlo ei fod wedi'i drin yn ddifrifol anghyfiawn.

**Cyfrifoldeb lleiedig:** Roedd gan y diffynnydd gyflwr meddygol cydnabyddedig a oedd yn ei atal (er enghraifft) rhag deall ei ymddygiad neu ffurfio barn resymegol, sy'n rhoi esboniad am y lladd.

**Lladd yn unol â chytundeb hunanladdiad:** Cytunodd y diffynnydd a'r dioddefwr i farw drwy hunanladdiad gyda'i gilydd. Lladdodd y diffynnydd y dioddefwr

**Dynladdiad gwirfoddol:** Roedd y diffynnydd wedi bwriadu lladd neu achosi niwed corfforol difrifol ac mae wedi'i gyhuddo o lofruddiaeth, ond mae amddiffyniad rhannol yn berthnasol sy'n lleihau'r euogfarn i ddynladdiad.

**Dynladdiad anwirfoddol:** dynladdiad drwy weithred beryglus anghyfreithlon, dynladdiad drwy esgeuluster difrifol a dynladdiad byrbwyll.

## Ein cynigion amodol

Rydym yn cynnig yn amodol, o dan ein strwythur tair haen, y dylai amddiffyniadau rhannol fod yn berthnasol i lofruddiaeth gradd gyntaf (diffynyddion a oedd yn bwriadu lladd). Byddai amddiffyniad rhannol sy'n llwyddo yn lleihau cyhuddiad o lofruddiaeth gradd gyntaf i "lofruddiaeth gydag amddiffyniad rhannol", a fyddai â

dedfryd oes ddewisol. Byddai hon yn ddedfryd ar wahân sy'n perthyn i ail haen ein strwythur arfaethedig, ochr yn ochr â llofruddiaeth ail radd, ond yn wahanol i hynny.

Credwn y dylai label y rheithfarn adlewyrchu'r amddiffyniad rhannol llwyddiannus, megis "llofruddiaeth gyda cyfrifoldeb lleiedig" neu "lofruddiaeth yn sgil colli rheolaeth". Fodd bynnag, ar hyn o bryd rydym yn cynnig label generig "llofruddiaeth gydag amddiffyniad rhannol" nes i ni adolygu'r amddiffyniadau rhannol yn fanylach mewn papur ymgynghori yn y dyfodol.

Gan mai prif sail resymegol yr amddiffyniadau rhannol yw tynnu diffynyddion sydd â llai o feiusrwydd o gwmpas y ddedfryd oes orfodol, mae angen i'r amddiffyniadau rhannol fod yn berthnasol i lofruddiaethau gradd gyntaf. Dyma'r unig drosedd yn ein strwythur arfaethedig y mae'r ddedfryd oes orfodol yn berthnasol iddi. Gan mai lladd oedd bwriad diffynyddion a oedd ag amddiffyniad rhannol i lofruddiaeth gradd gyntaf, credwn ei bod yn fwy priodol eu bod yn cael eu dyfarnu'n euog o fath o lofruddiaeth yn hytrach na dynladdiad. Byddai tynnu diffynyddion sydd ag amddiffyniad rhannol o gwmpas dynladdiad hefyd yn helpu i egluro pwrpas dynladdiad (anwirfoddol), lle mae angen gwahanol elfennau o fai.

Nid ydym yn cynnig bod yr amddiffyniadau rhannol yn berthnasol i lofruddiaeth ail radd. Gan na fyddai'r ddedfryd oes orfodol yn berthnasol i lofruddiaeth ail radd, nid yw prif resymeg yr amddiffyniadau rhannol yn berthnasol. Rydym yn fodlon y byddai trefn ddedfrydu yn y dyfodol ar gyfer llofruddiaeth ail radd yn caniatáu i'r llys gydnabod amgylchiadau tebyg i golli rheolaeth neu gyfrifoldeb lleiedig fel cyfiawnhad posib dros roi dedfryd lai llym i'r diffynnydd (fel sy'n digwydd gyda phob trosedd arall).

### Cwestiwn yr Ymgynghoriad 4. (paragraff 7.58 y papur ymgynghori)

Rydym yn cynnig yn amodol, pan fydd y diffynnydd yn cael ei gyhuddo o lofruddiaeth gradd gyntaf a bod amddiffyniad rhannol yn llwyddiannus, y dylid cael y diffynnydd yn euog o "lofruddiaeth gydag amddiffyniad rhannol" yn ail haen y strwythur lladdiadau, ac mai'r ddedfryd hiraf ar ei gyfer fyddai carchar am oes (dedfryd oes ddewisol).

A yw ymgyngoreion yn cytuno?

### Cwestiwn yr Ymgynghoriad 5. (paragraff 7.59 y papur ymgynghori)

Rydym yn cynnig yn amodol, pan fydd y diffynnydd yn cael ei gyhuddo o lofruddiaeth ail radd, na ddylai amddiffyniadau rhannol fod ar gael. Pan fo gan y diffynnydd y bwriad sydd ei angen ar gyfer llofruddiaeth ail radd (bwriad i achosi anaf difrifol), byddai amgylchiadau tebyg i golli rheolaeth neu gyfrifoldeb lleiedig yn cael eu hystyried fel lliniariad wrth ddedfrydu.

A yw ymgyngoreion yn cytuno?

`

# Dynladdiad

O dan y gyfraith bresennol, un drosedd yw dynladdiad y gellir ei chyflawni mewn sawl ffordd. Y tri math cyntaf o ddynladdiad yw dynladdiad drwy weithred beryglus anghyfreithlon, dynladdiad drwy esgeuluster difrifol a dynladdiad byrbwyll. Mae rhywfaint o ddadlau ynghylch a yw dynladdiad byrbwyll yn bodoli ar wahân i ddynladdiad drwy esgeuluster difrifol. Y math olaf o ddynladdiad yw dynladdiad gwirfoddol, lle mae amddiffyniad rhannol yn lleihau cyhuddiad o lofruddiaeth i ddynladdiad (a drafodir uchod).

Mae dynladdiad yn cael ei feirniadu'n eang am fod yn amwys ac yn aneglur, gan gynrychioli ystod rhy eang o ymddygiad a beiusrwydd o dan un drosedd. Bydd ein cynnig amodol i newid gweithrediad amddiffyniadau rhannol yn helpu i fynd i'r afael â'r feirniadaeth hon drwy leihau cwmpas dynladdiad, gan y bydd diffynyddion sydd ag amddiffyniad rhannol yn cael eu dyfarnu'n euog yn lle hynny o "lofruddiaeth gydag amddiffyniad rhannol".

Rydym yn cynnig yn amodol y dylai dynladdiad gynnwys tri chategori: dynladdiad drwy weithred beryglus anghyfreithlon, dynladdiad drwy esgeuluster difrifol a dynladdiad byrbwyll. Bydd diffynyddion ym mhob un o'r categorïau hyn yn cael eu dyfarnu'n euog o'r drosedd gyffredinol "dynladdiad", sef trydedd haen y strwythur lladdiadau. Byddai gan ddynladdiad ddedfryd oes ddewisol.

Credwn fod dadl egwyddorol dros gael y tri chategori hyn o ddynladdiad. Mae'r tri chategori'n cynrychioli mathau o ladd sy'n gyfwerth yn fras o ran beiusrwydd, ac felly dylent i gyd ddod o dan y drosedd o ddynladdiad. Fodd bynnag, mae'r sail dros feiusrwydd yn wahanol ym mhob math o ladd, a dylai'r gwahanol gategorïau o ddynladdiad adlewyrchu hyn. Byddai dynladdiad byrbwyll yn cynnwys diffynyddion a oedd yn ymwybodol o risg o farwolaeth neu anaf difrifol ac a oedd wedi mentro'r risg honno'n afresymol. Byddai dynladdiad drwy esgeuluster difrifol yn cynnwys diffynyddion a dorrodd ddyletswydd gofal a oedd yn ddyledus ganddynt i'r dioddefwr ac a ddangosodd diofalwch beius o'r risg o farwolaeth. Byddai dynladdiad drwy weithred beryglus anghyfreithlon yn cynnwys diffynyddion a achosodd farwolaeth wrth ddechrau cyflawni gweithred anghyfreithlon a oedd yn wrthrychol beryglus, ac a oedd yn bwriadu achosi rhyw anaf neu a oedd yn fyrbwyll ynghylch a achoswyd rhyw anaf.

## Dynladdiad drwy weithred beryglus anghyfreithlon

O dan y gyfraith bresennol, mae dynladdiad drwy weithred beryglus anghyfreithlon yn berthnasol mewn achosion lle mae'r diffynnydd wedi achosi marwolaeth rhywun arall drwy gyflawni trosedd a oedd yn cynnwys perygl gwrthrychol o ryw niwed.[1] Er bod y categori hwn yn cael ei alw'n gyffredinol yn "ddynladdiad drwy weithred anghyfreithlon", rydym yn cyfeirio ato fel "dynladdiad drwy weithred *beryglus* anghyfreithlon" i adlewyrchu gofynion y categori hwn yn fwy cywir.

Mae rhai'n dadlau bod natur wrthrychol y prawf presennol ar gyfer dynladdiad drwy weithred beryglus anghyfreithlon yn gosod y

[1] Yma, mae perygl gwrthrychol yn golygu y byddai person rhesymol wedi sylweddoli bod y weithred anghyfreithlon yn siŵr o beri risg o *ryw* niwed corfforol i rywun arall. Gall niwed corfforol yn y cyd-destun hwn gynnwys sioc lle mae hyn yn arwain at anaf gwirioneddol, fel effeithiau parhaol ar y system nerfol.

trothwy ar gyfer atebolrwydd yn rhy isel, ac yn cwmpasu ystod rhy eang o ymddygiad. Rydym yn cynnig yn amodol y dylai'r prawf ar gyfer dynladdiad drwy weithred beryglus anghyfreithlon gynnwys gofyniad goddrychol ychwanegol – sy'n mynnu bod y diffynnydd naill ai'n bwriadu achosi rhyw anaf neu ei fod yn fyrbwyll ynghylch a achoswyd rhyw anaf.

**Cwestiwn yr Ymgynghoriad 6. (paragraff 8.102 y papur ymgynghori)**

Rydym yn cynnig yn amodol y dylai fod yn ddynladdiad drwy weithred beryglus anghyfreithlon:

1) Pan fo'r diffynnydd wedi cyflawni gweithred a oedd yn drosedd.

2) Pan fo ymddygiad y diffynnydd yn beryglus, gan y byddai person rhesymol wedi cydnabod bod hynny'n sicr o roi person arall mewn perygl o gael ei anafu.

3) Pan fo'n fwriad gan y diffynnydd i achosi rhyw anaf neu roedd yn fyrbwyll ynghylch a fyddai rhyw anaf yn cael ei hachosi.

4) Pan fo ymddygiad y diffynnydd wedi achosi marwolaeth rhywun arall.

Byddai'r dull hwn yn lleihau'r categori dynladdiad drwy weithred beryglus anghyfreithlon, gan dynnu rhai diffynyddion sydd â'r lefel isaf o feiusrwydd allan o'i gwmpas. Byddai diffynyddion o'r fath yn dal yn atebol yn droseddol am y weithred anghyfreithlon sylfaenol y maent wedi'i chyflawni.

## Troseddau atebolrwydd caeth

Mae troseddau atebolrwydd caeth yn droseddau lle nad oes rhaid i'r erlyniad brofi elfen o fai (fel bwriad, byrbwylltra nac esgeuluster). Ar hyn o bryd, mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch a all troseddau atebolrwydd caeth fod yn sail i euogfarn am ddynladdiad drwy weithred beryglus anghyfreithlon. Er mwyn i ddynladdiad drwy weithred beryglus anghyfreithlon ymdrin yn unig â'r diffynyddion hynny sydd ddigon ar fai i gael y label dynladdiad, credwn y dylai'r weithred anghyfreithlon sylfaenol gynnwys elfen o fai, sy'n golygu bod yn rhaid i'r diffynnydd fod ag elfen benodol o fai i fod yn atebol yn droseddol.

**Cwestiwn yr Ymgynghoriad 7. (paragraff 8.106 y papur ymgynghori)**

Rydym yn cynnig yn amodol na ddylai troseddau atebolrwydd caeth allu bod yn sail i euogfarn am ddynladdiad drwy weithred beryglus anghyfreithlon.

A yw ymgyngoreion yn cytuno?

# Dynladdiad drwy esgeuluster difrifol

Mae dynladdiad drwy esgeuluster difrifol yn berthnasol mewn achosion lle'r oedd y diffynnydd wedi bod yn esgeulus wrth dorri'r dyletswydd gofal a oedd ganddo tuag at y dioddefwr. Ar adeg y methiant, rhaid bod risg ddifrifol ac amlwg o farwolaeth. Ar ben hynny, rhaid bod modd rhag-weld yn rhesymol adeg y methiant bod y methiant yn arwain at risg ddifrifol ac amlwg o farwolaeth. Rhaid i'r methiant fod wedi cyfrannu'n sylweddol at farwolaeth y dioddefwr.

Hyd yn oed wedyn, ni fydd y diffynnydd yn euog o ddynladdiad drwy esgeuluster difrifol

`

oni bai fod amgylchiadau'r methiant yn wirioneddol eithriadol o wael ac mor resynus eu bod yn cyfiawnhau'r casgliad ei fod yn gyfystyr ag esgeuluster difrifol a bod angen cosb droseddol.

Mae'r dystiolaeth rydym wedi'i chael yn awgrymu bod llawer o randdeiliaid yn fodlon ar y cyfan ar y ffordd y mae dynladdiad drwy esgeuluster difrifol yn gweithredu'n ymarferol, ac felly nid ydym yn cynnig newidiadau sylweddol i'r categori hwn o ddynladdiad. Fodd bynnag, clywsom feirniadaeth o'r iaith a ddefnyddiwyd yn elfen olaf y prawf – bod amgylchiadau'r toriad mor ddrwg fel bod angen cosb droseddol arnynt. Mae rhai'n dadlau bod geiriad yr elfen hon yn gylchol ac yn ddi-fudd. Y rheswm am hyn yw ei fod yn gadael i'r rheithgor benderfynu ar safon yr ymddygiad sy'n haeddu cosb droseddol, pan ddylai hwn fod yn safon a bennir yn lle hynny gan gyfraith trosedd y mae'n ofynnol i'r rheithgor ei defnyddio wedyn mewn achosion unigol.

Credwn y gellir mynd i'r afael â'r broblem hon drwy newid geiriad y prawf ar gyfer dynladdiad drwy esgeuluster difrifol i ddisodli'r cyfeiriad at ymddygiad lle mae angen "cosb droseddol".

**Cwestiwn yr Ymgynghoriad 8. (paragraff 8.127 y papur ymgynghori)**

Rydym yn cynnig yn amodol y dylai dynladdiad drwy esgeuluster difrifol fod yn berthnasol:

1) Pan fo gan y diffynnydd ddyletswydd gofal bresennol tuag at y dioddefwr.

2) Pan fo'r diffynnydd yn esgeulus wrth dorri'r ddyletswydd honno.

3) Ar adeg y methiant, roedd risg ddifrifol ac amlwg o farwolaeth.

4) Pan fo modd rhag-weld yn rhesymol adeg y methiant bod y methiant yn arwain at risg ddifrifol ac amlwg o farwolaeth.

5) Pan fo torri'r ddyletswydd gofal wedi achosi neu wedi cyfrannu'n sylweddol at farwolaeth y dioddefwr.

6) Pan fo ymddygiad y diffynnydd yn wirioneddol eithriadol o wael, gan ddisgyn yn is o lawer na'r hyn y byddai'n rhesymol ei ddisgwyl ganddynt o dan yr amgylchiadau.

A yw ymgyngoreion yn cytuno?

## Dynladdiad Corfforaethol

Mae'r drosedd o ddynladdiad corfforaethol[2] yn drosedd statudol ar wahân, yn hytrach na chategori o ddynladdiad. Ni all unigolion fod yn euog o ddynladdiad corfforaethol; dim ond i sefydliadau y mae'r drosedd yn berthnasol iddynt. Serch hynny, mae rhywfaint o orgyffwrdd rhwng dynladdiad corfforaethol a dynladdiad drwy esgeuluster difrifol.

[2] Deddf Dynladdiad Corfforaethol a Lladdiad Corfforaethol 2007, a 1.

Nid ydym wedi cael unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod angen diwygio'r drosedd o ddynladdiad corfforaethol, ac nid ydym yn bwriadu ystyried elfennau sylweddol y drosedd yn y prosiect hwn. Nid ydym yn credu y bydd ein cynigion amodol yn cael unrhyw effaith niweidiol ar y drosedd o ddynladdiad corfforaethol.

**Cwestiwn yr Ymgynghoriad 9. (paragraff 8.142 y papur ymgynghori)**

Rydym yn gofyn am farn ymgyngoreion ynghylch a fyddai ein cynnig amodol i ddiwygio dynladdiad drwy esgeuluster difrifol yn cael unrhyw effaith ganlyniadol ar y drosedd statudol o ddynladdiad corfforaethol o dan adran 1 o Ddeddf Dynladdiad Corfforaethol a Lladdiad Corfforaethol 2007.

## Dynladdiad byrbwyll

Mae dadl ynghylch a oes categori ar wahân o ddynladdiad byrbwyll yn bodoli o dan y gyfraith bresennol. Fodd bynnag, mae'r papur ymgynghori hwn yn canolbwyntio ar y cwestiwn ynghylch a *ddylai* categori o'r fath fodoli o dan strwythur lladdiadau diwygiedig. Rydym yn dadlau y dylai fodoli.

Yr elfen o fai am ddynladdiad byrbwyll, fel y mae'r enw'n awgrymu, yw byrbwylltra. Mae hyn yn golygu bod y diffynnydd yn ymwybodol bod risg y byddai ei ymddygiad yn achosi marwolaeth neu anaf difrifol, ac roedd yn afresymol i'r diffynnydd gymryd y risg honno gan ystyried ei fod yn gwybod mai dyna oedd yr amgylchiadau neu'n credu mai dyna oedd yr amgylchiadau.

Mae nifer sylweddol o'r farn mai lladd byrbwyll yw un o'r mathau mwyaf beius a difrifol o ladd. Mae'n bwysig sicrhau bod gwahaniaethu rhwng y math hwn o ymddygiad beius ag achosion eraill sy'n dod o dan y drosedd gyffredinol o ddynladdiad. Byddai tynnu achosion o ladd byrbwyll o gwmpas dynladdiad drwy weithred beryglus anghyfreithlon a dynladdiad drwy esgeuluster difrifol hefyd yn helpu i gadw'r categorïau hyn yn glir yn gysyniadol.

**Cwestiwn yr Ymgynghoriad 10. (paragraff 8.164 y papur ymgynghori)**

Rydym yn cynnig yn amodol y dylid cael categori ar wahân o ddynladdiad byrbwyll sy'n berthnasol:

1) Pan fo ymddygiad y diffynnydd wedi achosi marwolaeth rhywun arall.
2) Pan fo'r diffynnydd yn ymwybodol bod risg y byddai ei ymddygiad yn achosi marwolaeth neu anaf difrifol.
3) Pan fo'n afresymol i'r diffynnydd gymryd y risg honno, gan ystyried ei fod yn gwybod mai dyna oedd yr amgylchiadau neu'n credu mai dyna oedd yr amgylchiadau.

A yw ymgyngoreion yn cytuno?

## Y term Saesneg "manslaughter"

Clywsom bryderon gan nifer o randdeiliaid am y label Saesneg "manslaughter". Awgrymodd rhai rhanddeiliaid fod gan y term "slaughter" arwyddocâd mwy difrifol na "murder" neu "killing". Nododd un rhanddeiliad nad oedd unrhyw angen am ddefnyddio'r rhagddodiad rhywedd "man". Nid oedd consensws clir ar label amgen ar gyfer y drosedd, ac nid ydym wedi cael digon o dystiolaeth i ddod i farn amodol ar ddiwygio label y drosedd ar hyn o bryd.

`

**Cwestiwn yr Ymgynghoriad 11.**
**(paragraff 8.172 y papur ymgynghori)**

Rydym yn gofyn am farn ymgyngoreion ar ddefnyddio’r term “dynladdiad/manslaughter” i ddisgrifio’r haen hon o strwythur cyffredinol troseddau lladdiad.

## Babanladdiad

Cyflwynwyd Deddf Babanladdiad 1922 i greu trosedd ac amddiffyniad ar wahân i lofruddiaeth mewn amgylchiadau lle mae mam wedi lladd ei phlentyn newydd-anedig tra bod ei meddwl yn afreolaidd o ganlyniad i eni plentyn.

Cyn cyflwyno deddfwriaeth babanladdiad yn 1922, roedd mamau a oedd wedi lladd eu plentyn bach yn cael eu cyhuddo o lofruddiaeth ac, o'u cael yn euog, roeddent yn wynebu dedfryd orfodol o farwolaeth. Bryd hynny, roedd rheithgorau'n fwyfwy amharod o roi dyfarniadau euog am lofruddiaeth yn yr achosion hyn. Roedd hyn yn adlewyrchu'r awydd i ddangos trugaredd tuag at famau agored i niwed a oedd (fel sy'n digwydd yn aml) wedi lladd eu plentyn newydd-anedig yng nghyd-destun pwysau cymdeithasol ac economaidd sylweddol, yn enwedig i fenywod ifanc a dibriod.

Gellir cael person yn euog o fabanladdiad:

1) os ydynt yn fam i blentyn dan 12 mis oed ac yn achosi marwolaeth y plentyn, naill ai drwy weithred neu drwy fethu gweithredu;

2) os oedd eu cyflwr meddyliol yn afreolaidd ar y pryd; ac

3) roedd y meddwl afreolaidd hwnnw oherwydd nad oeddent wedi gwella'n llwyr ar ôl geni plant neu oherwydd effeithiau llaetha.[3]

Nid oes angen i laetha na geni plentyn fod yn un o brif achosion pam mae mam yn meddwl yn afreolaidd, ac nid oes angen dangos mai'r meddwl afreolaidd hwn a achosodd y lladd.[4]

## Esboniadau sy'n sail i fabanladdiad

Gellir cyfiawnhau bodolaeth cyfraith babanladdiad ar y sail bod mamau sy'n lladd eu plant bach yn aml yn gweithredu mewn amgylchiadau sy'n eu gwneud yn agored iawn i niwed, sy'n lleihau eu beiusrwydd. Mae'r gwendid hwn yn cael ei ddisgrifio'n aml drwy gyfeirio at ffactorau iechyd ac economaidd-gymdeithasol y fam.

O ran iechyd y fam, mae rhai mamau sy'n lladd eu babanod yn dioddef o gyflyrau iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd, genedigaeth, neu'r cyfnod ôl-enedigol.

Ochr yn ochr â'r amgylchiadau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl y fam, mae ffactorau cymdeithasol ac economaidd yn berthnasol iawn, yn enwedig mewn achosion lle mae mamau'n lladd eu babanod newydd-anedig (a elwir hefyd yn newydd-anedig laddiad). Mae llawer o'r achosion hyn yn codi o "feichiogrwydd argyfwng", sy'n cynnwys ofn, gwadu, ynysu, tlodi, cam-drin domestig, ansicrwydd o ran mewnfudo, neu ddiffyg mynediad at ofal iechyd a chymorth cymdeithasol. Er bod amgylchiadau cymdeithasol a diwylliannol llawer o famau wedi datblygu ers dechrau'r ugeinfed ganrif pan gyflwynwyd cyfraith babanladdiad, mae rhai mamau'n parhau i fod yn agored i niwed mewn ffyrdd eithafol a chymhleth.

[3] Deddf Babanladdiad 1938, a 1.
[4] *R v Tunstill* [2018] EWCA Crim 1696 yn [32].

`

Mae ffactorau iechyd ac economaidd-gymdeithasol yn chwarae rhan bwysig o ran cyfiawnhau'r angen parhaus am gyfraith

## Babanladdiad fel trosedd ac amddiffyniad penodol

Mae cyfraith babanladdiad yn anarferol gan ei bod yn gweithredu fel trosedd ar wahân (gellir ei chyhuddo yn lle llofruddiaeth neu ddynladdiad) ac amddiffyniad (pan fydd yn llwyddiannus gall leihau cyhuddiad o lofruddiaeth neu ddynladdiad i euogfarn o fabanladdiad yn lle hynny).

Fel trosedd ar ei phen ei hun, mae babanladdiad yn ei gwneud yn bosib delio ag achosion priodol y tu allan i fframwaith llofruddiaeth neu ddynladdiad o ddechrau achos troseddol, gan fod y menywod hyn yn cael eu cyhuddo o drosedd lai difrifol. Gall hyn arbed mamau agored i niwed rhag wynebu cyhuddiad o lofruddiaeth ac mae'n galluogi'r canlyniadau ymarferol sy'n dilyn, fel dileu'r rheolau mechnïaeth llymach sy'n ofynnol ar gyfer diffynyddion sydd wedi'u cyhuddo o lofruddiaeth. Mae'r amddiffyniad babanladdiad yn caniatáu i reithgorau ddychwelyd rheithfarn sy'n adlewyrchu amgylchiadau'r achos yn well, gan arwain at ganlyniadau labelu a dedfrydu mwy priodol i famau y mae eu beiusrwydd yn llai.

## Ein cynigion amodol

Dadleuwyd efallai nad oes bellach angen cyfraith babanladdiad fel amddiffyniad o ystyried bod amddiffyniad rhannol o gyfrifoldeb lleiedig ar gael. Fodd bynnag, dim ond os oes yw diffynnydd wedi cael babanladdiad fel trosedd ar wahân ac amddiffyniad i lofruddiaeth a dynladdiad.

diagnosis am gyflwr meddygol y bydd cyfrifoldeb lleiedig yn berthnasol. Nid yw'n adlewyrchu sefyllfaoedd pan fo mam yn agored i niwed o ganlyniad i bwysau cymdeithasol, economaidd neu bersonol difrifol, neu pan nad yw ei meddwl afreolaidd yn gyfystyr ag anhwylder cydnabyddedig, fel sy'n gallu digwydd mewn achosion o fabanladdiad.

Am y rhesymau hyn, rydym o'r farn bod y drosedd a'r amddiffyniad yn rhannau angenrheidiol o gyfraith babanladdiad.

**Cwestiwn yr Ymgynghoriad 12. (paragraff 9.49 y papur ymgynghori)**

Rydym yn cynnig yn amodol y dylid cadw'r drosedd a'r amddiffyniad o fabanladdiad.

A yw ymgyngoreion yn cytuno?

Rydym o'r farn bod egwyddor gadarn i'r strwythur trosedd/amddiffyniad presennol, ond bydd dadansoddiad llawnach o'i elfennau, ei gwmpas, ei eiriad a'i ryngweithiad â chyfrifoldeb lleiedig yn cael sylw mewn papur ymgynghori diweddarach ar amddiffyniadau. Bydd y papur hwnnw'n archwilio'r materion hyn yn fanwl ac yn ystyried a oes angen diwygio er mwyn sicrhau bod babanladdiad yn gweithredu'n effeithiol.

## Troseddau lladdiad eraill

Mae cyfraith trosedd Cymru a Lloegr yn cynnwys amrywiaeth eang o droseddau sy'n ymwneud â marwolaeth person, yn amrywio o droseddau traffig ffyrdd i achosion sy'n ymwneud â chŵn peryglus. Gyda'i gilydd, rydym yn cyfeirio at y rhain fel y "troseddau lladdiad penodol".[5] Cyflwynwyd y troseddau hyn ar wahanol adegau at wahanol ddibenion ac maent yn cynnwys amrywiaeth eang o ymddygiadau a lefelau o feiusrwydd, gan eu gwneud yn anodd eu categoreiddio'n daclus.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o droseddau lladdiad penodol:

- Troseddau traffig ffyrdd fel achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus.
- Achosi neu ganiatáu marwolaeth plentyn neu oedolyn agored i niwed.
- Annog neu gynorthwyo hunanladdiad.
- Bod yn berchennog neu'n berson sy'n gyfrifol am gi sydd allan o reolaeth ac yn beryglus pan achosir anaf sy'n arwain at farwolaeth.

Yn y papur hwn rydym yn edrych yn fanylach ar nifer o droseddau lladdiad penodol. Rydym yn ystyried sut mae'r troseddau hyn yn cyd-fynd â strwythur cyffredinol cyfraith lladdiadau ac a oes unrhyw un ohonynt yn codi materion y gallai fod angen eu diwygio.

### Y berthynas rhwng troseddau lladdiad

Yn ein barn ni, mae rhesymau da dros gadw'r troseddau lladdiad penodol hyn ar wahân i'r strwythur lladdiadau cyffredinol.

Yn gyntaf oll, cafodd y troseddau lladdiad penodol hyn eu creu at ddibenion gwahanol, sy'n aml yn gysylltiedig â phroblemau cymdeithasol neu ymarferol. Cyflwynwyd rhai o'r troseddau i fynd i'r afael ag anawsterau o ran tystiolaeth, fel materion sy'n codi mewn achosion moduro angheuol lle'r oedd rheithgorau'n amharod yn hanesyddol i gael troseddwyr yn euog o ddynladdiad. Mae troseddau eraill, fel y drosedd cŵn peryglus, yn adlewyrchu pryderon polisi ehangach am ddiogelwch y cyhoedd.

Yn ail, er bod egwyddorion achosiaeth gyffredinol yn dal yn berthnasol, mae achosiaeth weithiau'n llai canolog i'r troseddau hyn nag ydyw i lofruddiaeth a dynladdiad. Mae rhai troseddau lladdiad penodol yn caniatáu atebolrwydd hyd yn oed pan na wnaeth y diffynnydd achosi'r farwolaeth yn uniongyrchol, ond wedi caniatáu iddi ddigwydd. Mewn rhai troseddau, nid oes angen cysylltiad achosol rhwng nodweddion gwaethygol (fel meddwdod) â'r farwolaeth ei hun.

Yn drydydd, mae difrifoldeb y troseddau lladdiad penodol yn amrywio, sy'n cael ei adlewyrchu yn eu gwahanol ofynion o ran bai a'u dedfrydau uchaf. Er y gall rhai troseddau fod yn debyg i ddynladdiad o ran difrifoldeb, byddai'n anymarferol creu un drosedd gyffredinol i gwmpasu'r holl

[5] Rydym yn defnyddio'r term hwn i olygu trosedd lle mae marwolaeth yn elfen benodol y mae'n rhaid i'r erlyniad ei phrofi, ond sydd y tu allan i strwythur troseddau lladdiad cyffredinol.

`

ymddygiadau hyn a byddai'n creu'r perygl o labelu annheg neu anghywir.

Rydym yn dod i'r casgliad na ddylid ymgorffori'r troseddau lladdiad penodol yn y strwythur lladdiadau cyffredinol. Yn hytrach, dylid eu hystyried yn droseddau ategol penodol sy'n mynd i'r afael ag achosion lle mae'n bosib nad yw llofruddiaeth neu ddynladdiad yn briodol.

## Creu troseddau lladdiad newydd

Clywsom fod troseddau lladdiad penodol yn gallu bod yn werthfawr pan fo pwrpas ymarferol clir iddynt.

Gall troseddau o'r fath adlewyrchu barn y cyhoedd yn well, bod yn fwy derbyniol i reithgorau, a mynd i'r afael â'r heriau tystiolaethol a wynebir gan y troseddau lladdiad cyffredinol. Fodd bynnag, cawsom ein rhybuddio hefyd i beidio â chreu gormod o droseddau cul, a allai danseilio gweithrediad teg ac effeithiol y gyfraith.

Rydym yn dod i'r casgliad y dylid cymryd gofal wrth gyflwyno troseddau lladdiad penodol newydd. Fodd bynnag, rydym yn derbyn y gallai fod rhai amgylchiadau cyfyngedig lle gellir cyfiawnhau troseddau lladdiad penodol, yn enwedig lle mae bylchau clir yn bodoli na ellir mynd i'r afael â nhw drwy'r fframwaith lladdiadau cyffredinol.

### Cyflenwi cyffuriau yn arwain at farwolaeth

Galwodd rhai ymgyngoreion am ddiwygio atebolrwydd am farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyflenwi cyffuriau anghyfreithlon. Mae rhai achosion diweddar, megis *R v Broughton*,[6] yn dangos pa mor anodd yw profi achosiaeth mewn achosion lle'r oedd y diffynnydd wedi cyflenwi cyffuriau anghyfreithlon i berson a fu farw wedyn oherwydd y cyffuriau hynny.

Roedd rhai ymgyngoreion yn dadlau fod hyn yn adlewyrchu agwedd rhy gul at achosiaeth sy'n ei gwneud yn anodd erlyn hyd yn oed pan mae'n ymddangos bod cyfrifoldeb y diffynnydd yn uchel.

Awgrymodd nifer o academyddion y gallai trosedd lladdiad benodol sy'n gysylltiedig â chyffuriau oresgyn yr anawsterau hyn drwy ostwng y trothwy achosiaeth a darparu label trosedd cliriach, gan barhau i adlewyrchu llai o feiusrwydd na dynladdiad. Rydym yn cydnabod y dadleuon hyn ond yn dod i'r casgliad nad oes gennym ddigon o dystiolaeth am fynychder ac achosiaeth i gyfiawnhau trosedd o'r fath. Yn unol â hynny, rydym yn gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch a ddylid mynd i'r afael â'r mater hwn a sut dylid gwneud hynny.

**Cwestiwn yr Ymgynghoriad 13. (paragraff 10.86 y papur ymgynghori)**

Rydym yn gofyn am farn ymgyngoreion ar yr angen a'r cyfiawnhad dros drosedd bwrpasol i droseddoli cyflenwi cyffuriau anghyfreithlon sy'n arwain at farwolaeth unigolyn.

[6] *R v Broughton* [2020] EWCA Crim 1093.

## Trosedd “dyletswydd i achub”

Ar hyn o bryd nid oes dyletswydd gyfreithiol gyffredinol i achub rhywun sydd mewn perygl. Dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig y mae atebolrwydd troseddol am hepgoriadau yn hytrach na gweithredoedd yn codi, er enghraifft lle mae dyletswydd gofal benodol.

Cawsom dystiolaeth am achosion lle nad oedd pobl wedi gofyn am gymorth meddygol nac ymateb i arwyddion o risg ddifrifol, gan gynnwys ymddygiad hunanladdol, a oedd wedi arwain at farwolaeth rhywun arall. Clywsom awgrymiadau am yr angen am drosedd “dyletswydd i achub” a allai fod yn berthnasol mewn rhai o’r sefyllfaoedd hyn. Gall argyfwng meddygol neu sefyllfa beryglus arwain at farwolaeth, ond ni fydd hynny bob amser yn digwydd, ac felly gallai dyletswydd gyffredinol i achub fod yn berthnasol y tu allan i gyfraith lladdiadau. Fodd bynnag, pan fo’r achosion hyn yn ymwneud â marwolaeth person, mae’r mater hwn o fewn cwmpas ein hadolygiad.

**Cwestiwn yr Ymgynghoriad 14. (paragraff 10.91 y papur ymgynghori)**

Rydym yn gofyn am farn ymgyngoreion ar yr angen a’r cyfiawnhad dros drosedd bwrpasol mewn achosion lle bu methiant beius i geisio cymorth meddygol neu ymyrraeth, sy’n arwain at farwolaeth.

**Cwestiwn yr Ymgynghoriad 15. (paragraff 10.95 y papur ymgynghori)**

Rydym yn dod i’r casgliad amodol na ddylid ymgorffori’r troseddau lladdiad penodol (troseddau lle mae marwolaeth yn elfen benodol y mae’n rhaid i’r erlyniad ei phrofi, ond sydd y tu allan i’r troseddau lladdiad cyffredinol) yn y strwythur lladdiadau tair haen.

A yw ymgyngoreion yn cytuno?

**Cwestiwn yr Ymgynghoriad 16. (paragraff 10.96 y papur ymgynghori)**

Rydym yn gofyn am farn ymgyngoreion ynghylch a oes angen diwygio elfennau sylweddol ar unrhyw un o’r troseddau lladdiad penodol.

`

## Lladd “trugarog” a lladd cydsyniol

**“Lladd trugarog”**, fel y’i gelwir, yw lladd gyda’r bwriad o ladd y dywedir ei fod am resymau tosturiol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) lle’r oedd yr ymadawedig yn dioddef niwed corfforol neu seicolegol eithafol ac wedi mynegi dymuniad i farw.

Mae **“lladd cydsyniol”** yn lladdiad gyda’r bwriad o ladd lle mae’r ymadawedig wedi gofyn am gael ei ladd neu wedi cydsynio i gael ei ladd.

Gall lladd am resymau gwirioneddol dosturiol, neu gyda chaniatâd dilys yr ymadawedig, leihau beiusrwydd rhywun. Yn yr achosion hyn, mae’r system cyfiawnder troseddol ar hyn o bryd yn dibynnu ar ddisgresiwn erlyn, amddiffyniad i lofruddiaeth, a/neu ddedfrydu i adlewyrchu’r beiusrwydd is hwnnw.

Nid yw lladd trugarog a lladd cydsyniol yn gategorïau cyfreithiol penodol mewn cyfraith lladdiadau. Oherwydd eu bod yn cynnwys y bwriad i ladd, maent fel arfer yn perthyn i lofruddiaeth, er y gall euogfarn am ddynladdiad godi pan fydd amddiffyniad rhannol yn berthnasol. Yn fwyaf cyffredin, bydd yr amddiffyniad hwn yn gyfrifoldeb lleiedig neu ladd yn unol â chytundeb hunanladdiad (lle mae’r ddau barti’n cytuno i farw).

Mae lladd trugarog a lladd cydsyniol yn codi cwestiynau anodd ynghylch sut y dylai cyfraith lladdiadau adlewyrchu llai o feiusrwydd mewn achosion gwirioneddol dosturiol. Mae ymatebion i’r Cais am Dystiolaeth a’r ymchwil i agweddau’r cyhoedd yn dangos cefnogaeth i ddangos trugaredd mewn achosion o’r fath.

## Ystyried trosedd newydd ar wahân

Ni chawsom dystiolaeth sy’n awgrymu bod cyfiawnhad dros gael trosedd newydd (yn hytrach na dibynnu ar amddiffyniadau, disgresiwn erlyn a dedfrydu) yn yr achosion hyn. Mae lladd trugarog a lladd cydsyniol yn cynnwys y bwriad i ladd, sy’n nodwedd graidd o’r drosedd o lofruddiaeth. Yn ein barn ni, byddai creu trosedd ar wahân yn tanseilio cydlyniad y fframwaith lladdiadau.

## Rôl amddiffyniadau

Codwyd pryderon ynghylch y defnydd presennol o amddiffyniadau rhannol mewn lladd trugarog, gan gynnwys pryderon y dibynnir yn aml ar gyfrifoldeb lleiedig, er nad yw wedi’i gynllunio at y diben hwn. Gallai hyn awgrymu bod ffiniau cyfrifoldeb lleiedig yn cael eu hymestyn ac y dylid ystyried amddiffyniad penodol ar gyfer lladd trugarog. Rydym hefyd wedi clywed pryderon am argaeledd yr amddiffyniad cytundeb hunanladdiad lle mae anghydbwysedd pŵer neu hanes o gam-drin, fel pan fo perthynas rhwng gofalwyr a derbynwyr gofal. Rydym yn credu mai’r ffordd orau o fynd i’r afael â’r materion hyn yw yng ngham nesaf y prosiect, a fydd yn canolbwyntio ar amddiffyniadau a dedfrydu. Mae galwadau am amddiffyniad rhannol newydd yn golygu bod angen archwiliad manylach o sut mae amddiffyniadau presennol yn gweithredu ac a ydynt yn adlewyrchu beiusrwydd yn ddigonol.

**Cwestiwn yr Ymgynghoriad 17. (paragraff 11.26 y papur ymgynghori)**

Rydym yn dod i’r casgliad amodol nad oes cyfiawnhad dros gael trosedd lladdiad ar wahân ar gyfer lladd trugarog a lladd cydsyniol.

A yw ymgyngoreion yn cytuno?

## Cyfranogaeth mewn lladdiadau

Mae troseddau'n aml yn cael eu cyflawni gan fwy nag un person. Pan fydd hyn yn digwydd, cyfraith cyfranogaeth sy'n berthnasol.



Mae cyfraith cyfranogaeth yn aml yn cael ei galw'n "atebolrwydd menter ar y cyd". Nid ydym yn defnyddio'r ymadrodd hwn oherwydd bod y gyfraith wedi newid yn 2016 ac nid yw atebolrwydd menter ar y cyd bellach yn derm sy'n gywir yn gyfreithiol. Yn hytrach, rydym yn defnyddio "cyfranogaeth" neu weithiau "atebolrwydd eilaidd".

Yn yr adran hon:

Defnyddir **P (y prif droseddwr)** i gyfeirio at y person sy'n cyflawni'r drosedd (er enghraifft, y person sy'n lladd.

Defnyddir **D (y cyd-droseddwr)** i gyfeirio at y person sy'n annog neu'n cynorthwyo P i gyflawni'r drosedd (ac mae'n cael ei alw, mewn termau cyfreithiol, yn "barti eilaidd" neu'n "affeithiwr").

### Rheolau ynghylch cyfranogaeth

Mae Adran 8 o Ddeddf Affeithwyr ac Ategwyr 1861 yn datgan y gellir cael person (D) sy'n cynorthwyo, yn annog, yn cwnsela neu'n peri i drosedd gael ei chyflawni gan berson arall (P) yn euog o'r un drosedd â P.

Er mwyn i'r gyfraith cyfranogaeth fod yn gymwys, rhaid i'r cyd-droseddwr (D) annog neu gynorthwyo'r prif droseddwr (P) yn fwriadol i gyflawni trosedd, gyda'r bwriad fod P yn cyflawni'r drosedd gyda'r elfen bai sy'n ofynnol ar gyfer y drosedd honno.

**Enghraifft:**

Mewn achos o lofruddiaeth, lle gwnaeth P ladd V, bydd D yn euog o lofruddiaeth os wnaeth D annog neu gynorthwyo P yn fwriadol, gyda'r bwriad y byddai P yn cyflawni llofruddiaeth gydag elfen bai llofruddiaeth (naill ai'r bwriad i ladd neu'r bwriad i achosi niwed corfforol difrifol).

Mae dwy senario bosib y mae'r gyfraith cyfranogaeth yn berthnasol iddynt:

a) Aeth D ati'n fwriadol i helpu neu annog P i gyflawni trosedd A (er enghraifft, llofruddiaeth), ac mae P yn cyflawni trosedd A (llofruddiaeth).

b) Fe wnaeth D helpu neu annog P yn fwriadol i gyflawni trosedd A (er enghraifft, lladrad o fanc) ond mae P yn cyflawni (hefyd, neu yn lle hynny) trosedd wahanol B (er enghraifft, llofruddiaeth swyddog diogelwch y banc).

Mae'r ail senario yn amlwg yn fwy cymhleth, oherwydd rhaid penderfynu pryd y gellir cael y cyd-droseddwr (D) yn euog o drosedd B a gyflawnwyd gan y prif droseddwr (P). Mae'r ateb i'r cwestiwn hwn wedi achosi rhai heriau yn y gyfraith achosion.

Cyn 2016, roedd llysoedd wedi datblygu rheolau cyfranogaeth arbennig a oedd yn berthnasol i achosion menter ar y cyd (pan fydd D a P yn bartïon i fenter gyffredin i gyflawni trosedd A): Gellid cael D yn euog o drosedd B a gyflawnwyd gan P (er enghraifft, llofruddiaeth) pan fo D wedi rhag-weld y posibilrwydd y gallai P gyflawni

`

trosedd B (llofruddiaeth), hyd yn oed os nad oedd D yn bwriadu i P wneud hynny.

Yn 2016, penderfynodd Goruchaf Lys y DU yn achos *Jogee* fod y gyfraith wedi cymryd "tro anghywir".[7] Ym mhob achos, nid yw rhagargoeli yn ddigonol. Gellir cael D yn euog o'r un drosedd â P pan fo D yn fwriadol wedi annog neu gynorthwyo P i gyflawni trosedd A, a'i bod yn fwriad gan D (heb rag-weld) i P gyflawni (hefyd, neu yn lle hynny) trosedd B. Gall rhagargoeli fod yn dystiolaeth y gallai rheithgor ei defnyddio i ddod i'r casgliad bod gan D y bwriad gofynnol, ond nid yw yr un fath â'r bwriad.

Fodd bynnag, pan gyflawnodd P lofruddiaeth (oherwydd bod P wedi bwriadu achosi anaf difrifol o leiaf) ond bod D yn bwriadu i P achosi anaf nad yw'n ddifrifol, gellir cael D yn euog o ddynladdiad drwy weithred anghyfreithlon. Er enghraifft, pan fydd trais grŵp yn gwaethygu a bod D yn cynorthwyo neu'n annog gweithred anghyfreithlon y byddai pobl sobr a rhesymol yn sylweddoli bod perygl iddi achosi rhyw niwed (nad yw o reidrwydd yn ddifrifol) i rywun arall, a bod marwolaeth yn digwydd mewn gwirionedd, byddai D yn euog o ddynladdiad anghyfreithlon.

## Beirniadaeth o gyfraith cyfranogaeth yn dilyn *Jogee*

Er gwaethaf penderfyniad y Goruchaf Lys yn *Jogee*, mae cyfraith cyfranogaeth yn dal i gael ei beirniadu fel cyfraith gymhleth sy'n aml yn annheg. Mae'r problemau a nodwyd gan y beirniaid yn cynnwys y canlynol:

**1)** Mae corff cynyddol o dystiolaeth sy'n awgrymu bod gweithrediad cyfraith cyfranogaeth yn effeithio'n anghymesur ar rai categorïau o ddiffynyddion, gan gynnwys dynion a bechgyn ifanc Du; menywod; a phobl ag Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth.

**2)** Mae rhywfaint o feirniadaeth bod yr erlyniad weithiau'n dibynnu ar yr hyn a elwir yn "naratifau gangiau" i erlyn trais grŵp, gan gynnwys drwy ddehongli agweddau ar ddiwylliant ieuenctid Du (fel dillad a cherddoriaeth rap) fel tystiolaeth eu bod yn aelodau o gangiau (a ddefnyddir i ddadlau bod D wedi annog neu helpu P).

**3)** Mae ystyr "annog neu gynorthwyo" yn parhau i fod yn aneglur er gwaethaf yr eglurhad yn *Jogee* nad yw bod yn bresennol yn safle'r drosedd yn ddigonol ynddo'i hun i sefydlu atebolrwydd D. Mae'r ansicrwydd hwn wedi ysgogi galwadau am fwy o eglurder, er enghraifft mae rhai wedi awgrymu gofyniad bod yn rhaid i D wneud "cyfraniad sylweddol" at y drosedd a gyflawnwyd gan P.

**4)** Mae pryderon ynghylch labelu teg a chymesuredd dedfrydau yn yr achosion hyn oherwydd bod y gyfraith yn caniatáu i gyd-droseddwr gael ei ddyfarnu'n euog a'i ddedfrydu fel pe bai'n brif droseddwr. Fodd bynnag, mewn rhai achosion gall beiusrwydd y cyd-droseddwr fod yn is na beiusrwydd y prif droseddwr.

[7] *R v Jogee, Ruddock v Y Frenhines* [2016] UKSC 8.

Mae'r pryderon hyn yn dangos, yn ein barn ni, bod achos cryf dros ystyried diwygio'r rheolau cyffredinol sy'n llywodraethu cyfraith cyfranogaeth yn gynhwysfawr. Rydym wedi dod i'r casgliad nad prosiect ar ddiwygio lladdiad yw'r cyfrwng cywir i adolygu rheolau sy'n ymwneud â chyfranogaeth sy'n berthnasol i bob trosedd yn gyffredinol, nid dim ond i droseddau lladdiad.

`

## Effaith ein cynigion ar gyfraith cyfranogaeth

Er nad ydym yn cynnig diwygiadau i reolau cyffredinol ar gyfranogaeth, byddai ein cynnig i ailstrwythuro troseddau lladdiad (cyflwyno strwythur tair haen i droseddau lladdiad gan gynnwys llofruddiaeth gradd gyntaf ac ail radd) yn gwella'r ffordd y mae cyfraith cyfranogaeth yn gweithredu mewn achosion lladdiad.

Byddai cael dwy radd o lofruddiaeth yn caniatáu gwahaniaethau cliriach rhwng bwriadau P a D. Dan ein cynigion, mewn rhai achosion lle mae marwolaeth yn digwydd, gellir dyfarnu D yn euog o lofruddiaeth ail radd (os mai ei fwriad oedd bod P yn bwriadu achosi anaf difrifol), tra gellir dyfarnu P yn euog o lofruddiaeth gradd gyntaf (os oedd, yn lle hynny, yn bwriadu lladd). Dan y gyfraith bresennol, nid yw'r gwahaniaeth hwn yn bosib, oherwydd y bydd D yn cael ei ddyfarnu'n euog o lofruddiaeth hyd yn oed os mai'r unig fwriad oedd ganddo oedd bod P yn bwriadu achosi anaf difrifol. Drwy gyflwyno dwy drosedd llofruddiaeth, byddai'r gyfraith yn adlewyrchu rôl a bwriad pob unigolyn yn well. Byddai hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r erlyniad ddewis cyhuddiadau sy'n adlewyrchu gwahaniaethau mewn beiusrwydd.

Byddai ein strwythur arfaethedig yn arwain at ddedfrydu mwy cymesur. Ar hyn o bryd, bydd affeithwyr a geir yn euog o lofruddiaeth yn derbyn y ddedfryd oes orfodol. O dan y strwythur arfaethedig, byddai rhai o'r achosion hyn yn dod o dan lofruddiaeth ail radd, sydd â dedfryd uchaf (yn ôl disgresiwn) o garchar am oes. Felly, yn yr achosion hyn, bydd gan y barnwr fwy o hyblygrwydd wrth ddedfrydu.

Yn olaf, byddai ein cynigion amodol yn sicrhau y gellir dyfarnu D yn euog o ddynladdiad drwy weithred beryglus anghyfreithlon mewn achosion o gyfranogaeth pan oedd D naill ai'n bwriadu achosi rhyw anaf neu'n fyrbwyll ynghylch a fyddai rhyw anaf yn cael ei achosi. Mae hyn yn cyd-fynd â'r newid arfaethedig i ddynladdiad drwy weithred beryglus anghyfreithlon, a fyddai'n sicrhau bod atebolrwydd yn dibynnu ar gyflwr meddwl goddrychol D, gan wneud y gyfraith yn decach.

## Ymgais i lofruddio

Mae person yn euog o ymgais i gyflawni trosedd os yw'n bwriadu ei chyflawni ac yn cyflawni gweithred sy'n fwy na dim ond paratoi i'w chyflawni. Nid yw'r llysoedd yn mynnu bod y diffynnydd wedi cymryd y "weithred ddiwethaf", ond rhaid i'r ymddygiad fynd y tu hwnt i gynllunio neu baratoi a symud ymlaen i weithredu.

Ar gyfer y drosedd o ymgais i lofruddio, rhaid ei bod yn fwriad gan y diffynnydd i ladd. Yn wahanol i'r drosedd o lofruddiaeth, nid yw'r bwriad i achosi niwed corfforol difrifol yn ddigonol. Mae ymgais i lofruddio yn cario dedfryd oes ddewisol, ond nid oes dedfryd oes orfodol.

## Ymgais i lofruddio o dan ein strwythur lladdiadau arfaethedig

O dan ein diwygiadau arfaethedig, byddai ymgais i lofruddio yn berthnasol i lofruddiaeth gradd gyntaf yn unig, lle mae'n rhaid bod bwriad i ladd. Byddai hyn yn gwella cydlyniad drwy fynnu'r un bai am yr ymgais a'r drosedd sylfaenol.

Nid ydym yn credu y dylid cael trosedd o ymgais i lofruddio ail radd, a fyddai'n seiliedig ar fwriad i achosi anaf difrifol. Byddai trosedd o'r fath yn cymhlethu'r gyfraith heb fod angen ac yn dyblygu troseddau presennol fel ymgais i achosi niwed corfforol difrifol neu achosi niwed corfforol difrifol yn fwriadol. Os bydd rhywun yn gweithredu gyda'r bwriad o achosi niwed difrifol yn unig, ac nad yw'n lladd, nid yw'n briodol iddynt fod yn atebol am ymgais i lofruddio.

Yn ein barn ni, ni ddylai amddiffyniadau rhannol fod yn berthnasol i ymgais i lofruddio, gan nad oes dedfryd oes orfodol ac mae canllawiau dedfrydu eisoes yn caniatáu i lysoedd adlewyrchu llai o feiusrwydd.

**Cwestiwn yr Ymgynghoriad 18. (paragraff 13.26 y papur ymgynghori)**

Rydym yn cynnig yn amodol y dylai atebolrwydd am ymgais o dan ein troseddau lladdiad arfaethedig fod yn berthnasol i lofruddiaeth gradd gyntaf. Byddai'r diffynnydd yn atebol am y drosedd hon:

1) pan fo'n gwneud gweithred sy'n fwy na dim ond paratoi ar gyfer cyflawni'r drosedd o lofruddiaeth gradd gyntaf; a

2) bod ganddo'r bwriad i ladd.

A yw ymgyngoreion yn cytuno?

**Cwestiwn yr Ymgynghoriad 19. (paragraff 13.28 y papur ymgynghori)**

O dan ein cynigion, byddai diffynnydd sy'n lladd person arall yn anghyfreithlon gyda'r bwriad o achosi anaf difrifol yn euog o lofruddiaeth ail radd. Ar hyn o bryd, os yw'r diffynnydd yn gweithredu gyda'r bwriad o achosi niwed corfforol difrifol ac yn cymryd camau sy'n fwy na dim ond paratoi at wneud hynny, gall y diffynnydd fod yn euog o achosi niwed corfforol difrifol gyda bwriad neu ymgais i achosi niwed corfforol difrifol.

Rydym yn cynnig yn amodol y dylid cadw'r dull hwn, a chanlyniad hyn yw na fyddai trosedd o ymgais i lofruddio ail radd.

A yw ymgyngoreion yn cytuno?

`

## Dioddefwyr cam-drin domestig a lladdiad

Yn y papur ymgynghori, rydym yn ystyried troseddau lladdiad sy'n berthnasol i ddioddefwyr cam-drin domestig. Yn benodol, rydym yn nodi natur ryweddol y math hwn o droseddu a'r effaith anghymesur ar fenywod a merched fel dioddefwyr mwyaf cyffredin cam-drin domestig.

Mae pryderon hirsefydlog hefyd nad yw'r amddiffyniadau sydd ar gael i lofruddiaeth a dynladdiad yn gweithredu'n effeithiol ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth sy'n lladd y sawl sy'n eu cam-drin. Nid ydym yn ymwybodol o bryder sylweddol ynghylch y ffordd y mae'r troseddau llofruddiaeth a dynladdiad eu hunain yn gweithredu yn yr achosion hyn. Yn unol â hynny, byddwn yn ystyried y materion perthnasol i ddioddefwyr camdriniaeth sy'n lladd y sawl sy'n eu cam-drin yn elfennau amddiffyniad a dedfrydu'r prosiect hwn.

Yn y papur hwn, rydym yn canolbwyntio ar ddioddefwyr camdriniaeth sy'n marw drwy hunanladdiad y gwnaeth eu marwolaethau ysgogi galwadau i ddiwygio'r ffordd y cymhwysir y gyfraith lladdiadau i'r rhai sy'n cyflawni camdriniaeth o'r fath.

## Dioddefwyr camdriniaeth sy'n marw drwy hunanladdiad

Mae nifer yr achosion o hunanladdiad mewn achosion o gam-drin domestig wedi dod yn fwy amlwg yn y blynyddoedd diwethaf.[8] Mae pryderon nad yw gweithredu'r troseddau lladdiad cyffredinol yn mynd i'r afael yn llawn â beiusrwydd y rhai sy'n cyflawni camdriniaeth pan fydd eu dioddefwr yn marw drwy hunanladdiad o ganlyniad i'r cam-drin hwnnw.

### Y gyfraith bresennol

Mae'r rhesymau pam y gallai rhywun benderfynu lladd ei hun yn gymhleth ac yn amrywiol. Fodd bynnag, pan fydd cam-drin yn dylanwadu ar benderfyniad dioddefwr, mae hyn yn codi cwestiynau am feiusrwydd troseddol y camdriniwr.

Gellir dwyn cyhuddiadau o lofruddiaeth neu ddynladdiad pan fo camdriniwr yn gysylltiedig â marwolaeth dioddefwr camdriniaeth drwy hunanladdiad neu hunan-niweidio, a dynladdiad yw'r drosedd sy'n cael ei hystyried amlaf. Yn ogystal, mae annog neu gynorthwyo hunanladdiad yn troseddoli gweithredoedd sy'n gallu annog neu gynorthwyo hunanladdiad lle mai bwriad y weithred oedd annog neu gynorthwyo hunanladdiad neu ymgais i gyflawni hunanladdiad.[9] Gall troseddau eraill nad ydynt yn angheuol, fel ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol, stelcio neu ymosod, hefyd fod yn berthnasol.

### Materion a dadansoddiad

Awgrymwyd dau reswm i egluro'r diffyg erlyniadau llwyddiannus am droseddau lladdiad mewn perthynas â hunanladdiadau yn dilyn cam-drin domestig. Mae'r rhain yn ymwneud â'r dull ymarferol o ymdrin â'r erlyniadau hyn a'r gyfraith ei hun.

---

[8] Mae marwolaethau drwy hunanladdiad yn dilyn cam-drin domestig yn fwy cyffredin na lladdiad gan bartner agos. Gweler y Rhaglen Gwybodaeth ac Ymarfer Agored i Niwed (VKPP), "Crynodeb Gweithredol:Dynladdiadau Domestig ac Amheuaeth o Hunanladdiadau gan Ddioddefwyr 2020-2024, Adroddiad Blwyddyn 4" (Mawrth 2025) t 4.

[9] Deddf Hunanladdiad 1961, a 2.

**Ymarfer:** Mae rhai'n awgrymu bod diffyg ymwybyddiaeth ar hyn o bryd a chanfyddiad o amharodrwydd i ymchwilio a chyhuddo troseddau lladdiad yn yr achosion hyn. Mae hyn yn cynnwys rhwystrau rhag adnabod camdriniaeth wrth ymchwilio i hunanladdiad, gan arwain at golli cyfleoedd i gasglu tystiolaeth a allai gefnogi erlyniad.

Dywedodd rhai rhanddeiliaid fod y troseddau presennol yn ddigonol ond nad ydynt bob amser yn cael eu defnyddio'n briodol oherwydd bylchau mewn dealltwriaeth ac ymarfer. Roeddent yn dadlau y byddai gwell hyfforddiant a pholisi wedi'i ddiweddaru ar gyfer yr heddlu ac erlynwyr, a gwell canllawiau i reithgorau, ar y cysylltiad rhwng cam-drin domestig a hunanladdiad yn gwella ymchwiliadau a phenderfyniadau erlyn. Mae rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu bod gwelliannau yn y maes hwn, gyda chynlluniau plismona newydd yn helpu i gefnogi erlyniadau lle bo hynny'n briodol. Yn ein barn ni, mae gwelliant parhaus mewn ymarfer ar draws y systemau hyn yn hanfodol. Er y gall diwygio'r gyfraith gefnogi canlyniadau gwell yn yr achosion hyn, dylai hyn gael ei ategu gan well ymwybyddiaeth o effaith cam-drin domestig, a gwaith ehangach parhaus i wella canlyniadau i bawb sy'n cael eu cam-drin.

**Y gyfraith:** Mae'r prawf achosiaeth a ddefnyddir mewn erlyniadau llofruddiaeth a dynladdiad yn heriol yng nghyd-destun hunanladdiad yn dilyn cam-drin domestig. Gellir trin hunanladdiad fel gweithred annibynnol, ac yn gyfreithiol mae hyn yn golygu nad yr ymddygiad rhagarweiniol yw "achos" y farwolaeth. Fodd bynnag, mae'r gyfraith yn derbyn nad yw hunanladdiad bob amser yn torri cadwyn achosiaeth. Yn ymarferol, gall erlyniadau fethu oherwydd bod modd defnyddio gwendidau iechyd meddwl sydd gan ddioddefwyr yn barod i israddio rôl camdriniaeth, gan godi pryderon bod ymddygiad sydd wir yn feius yn rhy aml yn osgoi cyfrifoldeb troseddol. Er ei bod yn heriol i brofi achosiaeth, fel y dylai fod, mae cyfraith achosion yn dangos bod hynny'n bosib, a dylai gwelliannau diweddar o ran ymchwilio a chasglu tystiolaeth helpu i gefnogi erlyniadau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr heriau o ran erlyn llofruddiaeth a dynladdiad yn yr achosion hyn.

## Trosedd newydd

Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylid cael trosedd newydd, benodol ar gyfer achosion lle mae cam-drin domestig yn arwain at hunanladdiad, gyda dedfryd debyg i ddynladdiad. Gallai trosedd benodol helpu rheithgorau i ddeall yn well y cysylltiad rhwng cam-drin a hunanladdiad, annog mwy o erlyniadau mewn achosion addas, ac adlewyrchu difrifoldeb y niwed. Un o fanteision arall posib cael trosedd ar wahân yw darparu dewis arall i reithwyr sydd efallai'n teimlo nad yw euogfarn am lofruddiaeth neu ddynladdiad yn briodol ar sail y ffeithiau. Fodd bynnag, rhybuddiodd rhai nad yw troseddau tebyg mewn gwledydd eraill wedi cael eu gorfodi'n effeithiol bob amser.

Fel dull amgen neu ychwanegol, awgrymodd eraill y dylid trin hunanladdiad yn dilyn camdriniaeth fel ffactor waethygol wrth ddedfrydu ar gyfer troseddau nad ydynt yn ymwneud â lladdiad. Byddai hyn yn caniatáu i lysoedd adlewyrchu difrifoldeb y canlyniad hyd yn oed pan nad oes modd cael cyhuddiadau o laddiad.

Mae troseddau penodol eisoes yn cael eu cyflwyno i fynd i'r afael ag ymddygiad beius sy'n arwain at farwolaeth (gweler y drafodaeth uchod o dan "troseddau lladdiad penodol"). Mae'r troseddau hyn yn bodoli i

`

lenwi bylchau mewn troseddau eraill, delio ag anawsterau o ran tystiolaeth, a sicrhau labelu teg pan fo rheithgorau'n gyndyn i roi euogfarn o lofruddiaeth neu ddynladdiad. O ystyried pa mor gyffredin yw hunanladdiad yn dilyn cam-drin domestig a'r nifer isel o erlyniadau, ein barn yn y papur ymgynghori yw bod angen trosedd bwrpasol.

Er mwyn sicrhau ei bod wedi'i chyfyngu i ymddygiad beius, gellid cyfyngu trosedd newydd i ymddygiad camdriniol sydd eisoes wedi'i droseddoli. Byddai angen elfen achosol rhwng y gamdriniaeth honno a'r farwolaeth i sicrhau bod y drosedd ond yn berthnasol pan fo cysylltiad digonol rhwng yr ymddygiad a'r farwolaeth i gyfiawnhau troseddoli. Un dewis yw creu fersiwn ychwanegol sy'n adlewyrchu'r ffaith fod marwolaeth wedi digwydd, yn debyg i droseddau gyrru angheuol. Gallai fersiwn waethygedig o drosedd bresennol gynnig dull teg a strwythuredig. Yn ein barn ni, y drosedd o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol o dan adran 76 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015 fyddai'r drosedd sylfaen fwyaf addas. Mae'r drosedd hon wedi cael ei herlyn yn llwyddiannus mewn achosion o gam-drin domestig ar ôl marwolaeth y dioddefwr, a dyma'r adlewyrchiad gorau o'r math o ymddygiad camdriniol sy'n gallu cyfrannu at hunanladdiad ymysg dioddefwyr. Er bod angen rhagor o dystiolaeth cyn argymell diwygio, mae'r papur ymgynghori yn gwahodd safbwyntiau ar drosedd bwrpasol.

Yn ogystal, neu fel dewis arall yn lle trosedd bwrpasol, gallai cyflwyno ffactor gwaethygol wrth ddedfrydu ar gyfer troseddau cam-drin domestig a gyhuddir yn gyffredin yn dilyn marwolaeth drwy hunanladdiad helpu i sicrhau bod y ffaith bod marwolaeth wedi digwydd o ganlyniad i'r ymddygiad yn cael ei hadlewyrchu'n briodol yn yr ymateb cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, er mwyn i'r barnwr ystyried hyn wrth ddedfrydu, rydym yn nodi ei bod yn debygol y byddai angen tystiolaeth i ddangos cysylltiad rhwng yr ymddygiad a'r farwolaeth. Yn ymarferol, felly, efallai y bydd angen fformiwleiddio'r ffactor gwaethygol mewn ffordd debyg i drosedd bwrpasol. Rydym yn gwahodd safbwyntiau ar y dull hwn hefyd.

**Cwestiwn yr Ymgynghoriad 20. (paragraff 14.67 y papur ymgynghori)**

Rydym yn gofyn am farn ymgyngoreion ar yr angen a'r cyfiawnhad dros gael trosedd bwrpasol i droseddoli ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol mewn perthynas agos neu deuluol lle mae'r ymddygiad camdriniol hwnnw'n cyfrannu at farwolaeth y dioddefwr drwy hunanladdiad.

**Cwestiwn yr Ymgynghoriad 21. (paragraff 14.68 y papur ymgynghori)**

Rydym yn gofyn am farn ymgyngoreion ar yr angen a'r cyfiawnhad dros ffactor gwaethygol wrth ddedfrydu ar gyfer troseddau a gyhuddir yn aml mewn achosion o gam-drin domestig, lle mae'r cam-drin hwnnw'n cyfrannu at farwolaeth y dioddefwr drwy hunanladdiad.

## Effeithiau ar Gydraddoldeb

Ein nod yw sicrhau bod cyfraith lladdiadau yn deg. Mae ymchwil a amlygwyd yn y papur ymgynghori yn awgrymu bod cyfraith lladdiadau eisoes yn cael effeithiau anghymesur ar grwpiau penodol. Er enghraifft, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod natur ryweddol i laddiad domestig a bod cyfreithiau menter ar y cyd yn cael effaith anghymesur ar ddynion a bechgyn Du. Rydym hefyd yn cydnabod bod cyfraith lladdiadau yn effeithio'n wahanol ar blant, fel dioddefwyr a diffynyddion, ac y gall ffactorau fel datblygiad yr ymennydd a chyfranogaeth mewn gangiau fod yn berthnasol i'w profiadau mewn perthynas â'r gyfraith lladdiadau.

Felly, gwahoddir ymgyngoreion i rannu tystiolaeth neu safbwyntiau ynghylch sut gallai'r gyfraith bresennol neu ein diwygiadau arfaethedig roi mantais neu anfantais i grwpiau penodol (gan roi sylw penodol i'r nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol) i helpu i sicrhau bod unrhyw ddiwygiad yn cynhyrchu fframwaith cyfreithiol teg a chyfartal i bawb.

**Cwestiwn yr Ymgynghoriad 22. (paragraff 15.6 y papur ymgynghori)**

Rydym yn gwahodd ymgyngoreion i ddweud wrthym a ydynt yn credu neu a oes ganddynt dystiolaeth neu ddata i awgrymu y gallai'r troseddau lladdiad, neu ein diwygiadau arfaethedig, arwain at fanteision neu anfanteision i grwpiau penodol neu'n seiliedig ar nodweddion penodol, gan roi sylw penodol i'r nodweddion gwarchodedig yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol), a hefyd nodweddion eraill fel statws economaidd-gymdeithasol a statws mewnfudo.

**Cwestiwn yr Ymgynghoriad 23. (paragraff 15.7 y papur ymgynghori)**

Rydym yn gwahodd ymgyngoreion i ddweud wrthym unrhyw beth sy'n ymwneud â'r troseddau lladdiad, neu ein diwygiadau arfaethedig, nad ydynt eto wedi cael cyfle i'w ddweud mewn ymateb i unrhyw un o'r cwestiynau cynharach yn yr ymgynghoriad.

`

## Cydnabyddiaeth am y lluniau

Llun clawr, Llys y Goron:
Adobestock.com/John

Llun clawr, adroddiadau’r gyfraith:
Adobestock.com/GoenarsoBimo

Llun clawr, diffiniad o laddiad:
Adobestock.com/Feng Yu